O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 799 (Cy. 198)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Cefncoedycymer, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

Gwnaed	*11 Gorffennaf 2016*
Yn dod i rym	*25 Gorffennaf 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470), wedi eu bodloni y dylid gwahardd holl draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Gorffennaf 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf i Gylchfan Cefncoedycymer, Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

2. —((1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 25 Gorffennaf 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" (*"the lengths of the trunk road"*) yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Cylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chylchfan Cefncoedycymer ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny a nodir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith.

Dyddiedig 11 Gorffennaf 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

1. Y darn o'r gefnffordd rhwng Cylchfan Abercynon, ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chylchfan Abercannaid, Merthyr Tudful.

2. Y darn o'r gefnffordd rhwng Cylchfan Abercannaid a Chylchfan Rhyd-y-car, Merthyr Tudful.

3. Y darn o'r gefnffordd rhwng Cylchfan Rhyd-y-car a Chylchfan Swansea Road, Merthyr Tudful.

4. Y darn o'r gefnffordd rhwng Cylchfan Swansea Road a Chylchfan Cefncoedycymer, Merthyr Tudful.